
Archwilio Pam

# Croes



Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon

*Archwilio Pam*

# Croes

## Adnoddau Gweithgaredd ar gyfer dysgwyr ac athrawon

Tania ap Siôn, Leslie J Francis a Libby Jones

Darluniwyd gan Phillip Vernon

Bear Lands Publishing

Cyhoeddwyd 2016 gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y Gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru.

## YNGHYLCH Y GYFRES *ARCHWILIO PAM*

**Am beth mae'r gyfres?**

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r mannau lle maen nhw'n byw a'r mannau y maen nhw'n mynd i ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i' er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y mannau hyn yn well. Yn y gyfres *Archwilio Pam*, mae Aled a Siân yn chwilfrydig ac eisiau gwybod pam fod rhai o'r pethau o'u cwmpas yn bwysig i'w ffrindiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd. Gyda'i gilydd maen nhw'n archwilio bara, goleuni, fêl, croes, menora a dŵr, ac yna maen nhw'n cymryd rhan mewn Gŵyl Ffydd lle maen nhw'n cofio am bob un o'r symbolau ffydd hyn ac yn eu dathlu.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, a'r lle gaiff ei ddarparu mewn addysg i holi, i archwilio ac i lunio dealltwriaeth gynyddol pobl ifanc o'u perthynas â hwy eu hunain, gydag eraill, ac â byd natur. Mae'r gyfres wedi cael ei llunio ar ymchwil helaeth y maes crefyddau, pobl ifanc ac addysg, yn ogystal ag ar ymwneud ag arfer addysgol ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r sylfeini hyn yn gosod y gyfres mewn sefyllfa unigryw ymhlith y nifer fawr o adnoddau addysgol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r adnoddau yn y gyfres yn fwriadol yn hyblyg a heb fod yn rhagnodol. Mae hyn yn cydnabod natur y dysgu y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth heddiw ar gyfer plant dan 7 oed, a hefyd bwysigrwydd ysgogi a chefnogi creadigrwydd ac unigolrwydd athrawon wrth iddyn nhw lunio eu mannau dysgu.

Mae'r gyfres wedi cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac wedi ei dyfeisio i gefnogi addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen gyda golwg ar ddysgu gweithredol trwy ddull chwarae. Mae'n tynnu'n benodol ar *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, y *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a'r *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru*, ac mae'n ymwneud â'r rhain. Er bod yr adnoddau gweithgaredd wedi eu lleoli yn y cyd-destun penodol hwn, mae'n hawdd perthnasu'r gwaith ymchwil, a'r dulliau pedagogaidd sy'n sail iddyn nhw, i gyd-destunau eraill ac i'r cwricwla ysgol sy'n newid.

**Ar gyfer pwy mae'r gyfres?**

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau yn y gyfres wedi'u hanelu at blant 5 - 7 oed, ond mae'r amrywiaeth o fformatau llyfr stori a'r gweithgareddau'n gwneud y gyfres yn berthnasol ar gyfer dysgwyr iau a hŷn yn ogystal.

Mae'r gyfres wedi ei chynllunio yn bennaf ar gyfer athrawon a dysgwyr mewn ysgolion; fodd bynnag, gall rhai o fewn cyd-destunau dysgu ffurfiol ac anffurfiol eraill, gan gynnwys y cartref, hefyd ganfod y gyfres yn ddiddorol ac yn berthnasol.

**Pa adnoddau sydd ar gael?**

Mae saith o lyfrau stori yn y gyfres *Archwilio Pam*, sy'n ymchwilio i rai o'r pethau pwysig y mae Aled a Siân yn dod o hyd iddyn nhw wrth archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae'r pethau pwysig hyn yn cael eu harchwilio'n gyntaf yn yr

amgylchedd seciwlar lleol cyn cael eu harchwilio drwy lygaid pobl ifanc o fewn traddodiad crefyddol penodol. Y saith llyfr stori a'r traddodiadau crefyddol yw:

- Croes (Cristnogol)
- Bara (Cristnogol)
- Fêl (Mwslimaidd)
- Dŵr (Mwslimaidd)
- Menora (Iddewig)
- Goleuni (Iddewig)
- Symbolau Ffydd (yn dod â'r tri thraddodiad crefyddol ynghyd mewn dathliad o gredoau)

Mae pob un o'r llyfrau stori i'w cael mewn pedwar fformat gwahanol, y mae'n bosib eu defnyddio mewn ffordd hyblyg, yn unol â chyd-destunau unigol. Mae pedwar fformat i'r llyfrau stori:

- fersiwn testun byr (testun byr, syml gyda lluniau)
- fersiwn testun hir (testun hirach, mwy cymhleth gyda lluniau)
- fersiwn cwestiynau allweddol (cwestiynau allweddol a lluniau)
- fersiwn lluniau (lluniau'n unig heb destun)

Mae pob un o'r fformatau ar gael i'w llwytho i lawr ar ffurf .pdf, y gellir eu defnyddio ar fyrddau gwyn ac ar amrywiaeth o ddyfeisiau electronig sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn ysgolion, a chan bobl ifanc a'u teuluoedd heddiw.

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl ar gael fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer eu defnyddio yn y dosbarth.

I ategu'r llyfrau stori, mae gan bob un o'r llyfrau stori ei becyn ei hun o *Adnoddau Gweithgaredd* ar gyfer dysgwyr ac athrawon mewn fformat .pdf y gellir ei lwytho i lawr. Mae'r Adnoddau Gweithgaredd hyn yn dilyn yr un strwythur â'r llyfrau stori. Felly, ar gyfer pob tudalen ddwbl o'r llyfr stori, mae:

- tudalen o syniadau ar gyfer gweithgareddau i bob un o'r saith maes dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen;
- taflen neu daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr i ategu un o'r syniadau gweithgaredd hyn;
- cysylltiadau â 'mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol'.

Yn gyfan gwbl, ar gyfer pob teitl llyfr stori mae yma 140 o syniadau am weithgareddau a 10 o daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr.

**Mynediad at adnoddau'r gyfres *Archwilio Pam***
Mae'r holl adnoddau hyn yn rhai y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar **hwb.wales.gov.uk/Adnoddau** a **st-marys-centre.org.uk**
Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl llyfr stori ar gael hefyd i'w brynu fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer ei ddefnyddio yn y dosbarth.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y storïau ac yn mwynhau archwilio'r adnoddau'n greadigol yn eich cyd-destunau dysgu eich hunain.

Dr Tania ap Siôn
*Canolfan y Santes Fair, Cymru*
*Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick*

Yr Athro Leslie J Francis
*Canolfan y Santes Fair, Cymru*
*Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick*

Libby Jones
*Canolfan San Silyn, Wrecsam*

Phillip Vernon
*Canolfan y Santes Fair, Cymru*

Gorffennaf 2016

# Tudalennau gweithgareddau 4-5 CROES



Tudalen 4



Tudalen 5

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Holwch ynghylch gwahanol gerrig a metelau naturiol, a pham fod rhai yn werthfawr
- Ymchwiliwch ym mha fannau yn y byd mae aur a diemwntau'n cael eu cloddio

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Chwaraewch rôl eich bod mewn siop gemydd
- Lluniwch gerdd am y gadwyn siâp calon neu am un o'r cwpanau arian **(Gweithgaredd 1)**

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- oriawr
- modrwy

**Datblygiad corfforol**

- Dawnsiwch i dipiad y cloc
- Meimiwch ras a chyflwyno cwpanau arian

**Datblygiad creadigol**

- Dyluniwch a lluniwch gadwyn gyda chroes arni
- Lluniwch gollage o luniau gemwaith o gylchgronau a ffynonellau eraill

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol**

- Archwiliwch y materion iawnderau dynol sy'n gysylltiedig â chloddio am rai metelau a cherrig gwerthfawr
- Archwiliwch pwy sy'n gwisgo croes, a pham

**Datblygiad mathemategol**


- Cyfrifwch faint o fodrwyau sydd i'w gweld yn y llun, a dosbarthwch y rhain yn ôl y math
- Mae'r cloc yn dangos ei bod bron yn un o'r gloch. Os yw Aled a Siân yn deffro am 7 o'r gloch, ers faint maen nhw wedi bod yn effro?

Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol


Dylanwad

Cwestiynau

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016




© Tania ap Siôn and Phillip Vernon 2016




© Tania ap Siôn and Phillip Vernon 2016

|  |  |
|---|---|
| Tudalen 6 | Tudalen 7 |

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Pam fod sgwâr marchnad mewn trefi, a pham mae'r groes yno?
- Holwch ynghylch gwahanol fathau o groesau, ac o ble maen nhw'n dod

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Siaradwch am y bobl sydd ar sgwâr y farchnad
- Dychmygwch enwau personol i'r bobl sydd ar sgwâr y farchnad

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- marchnad
- croes

**Datblygiad corfforol**

- Dychmygwch sgwâr marchnad a sgipiwch i mewn i'r sgwâr ac o'i amgylch
- Gan ddefnyddio eich bys, dilynwch y patrwm Celtaidd ar y groes

**Datblygiad creadigol**

- Dyluniwch a lluniwch batrwm Celtaidd ar gyfer y groes **(Gweithgaredd 2)**
- Gan arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau a dwr, adeiladwch ffownten sy'n gweithio

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol**

- Dysgwch am y bobl sy'n masnachu ar sgwâr y farchnad
- Gan ddefnyddio'r bobl sydd i'w gweld yn y llun o sgwâr y farchnad, dechreuwch gwestiynu stereoteipio


**Datblygiad mathemategol**

- Os yw Aled a Siân yn saith ac wyth oed, amcangyfrifwch beth o bosib yw uchder  y groes?
- Faint talach yw'r goeden na'r dyn sy'n sefyll oddi tani?

Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol | Mewnweledlad | Ymatebion personol

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

## Patrwm Celtaidd




© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016



Tudalen 8



Tudalen 9

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Archwiliwch sut mae hufen iâ yn cael ei wneud
- Sut mae'r groes ar y wal yn wahanol i'r croesau eraill rydyn ni'n eu gweld yn y stori? **(Gweithgaredd 3)**

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Adroddwch stori am sut daeth y groes bren i fod ar y wal
- Siaradwch am adegau pan gawsoch chi hufen iâ

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- hufen
- coffi

**Datblygiad corfforol**

- Cerddwch i dref a gweld caffi
- Sefydlwch gaffi, gan weini diodydd a bwydydd ar amser cinio dydd Sadwrn prysur

**Datblygiad creadigol**

- Gwnewch hufen iâ neu lolipops
- Dyluniwch boster i werthu hufen iâ

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol**

- O ble mae te a choffi'n dod, a sut mae pobl yn dewis pa un i'w brynu?
- Pam mae pobl yn mynd i gaffis?

**Datblygiad mathemategol**

- Ewch ati i ganfod pa un yw'r blas mwyaf poblogaidd ymysg plant y dosbarth ar gyfer hufen iâ
- Rhowch brisiau ar hufen iâ a lolipops, a chwaraewch rôl o'u prynu a'u gwerthu yn y caffi

**Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol**










© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016


## Croesau


Sut mae’r groes bren yn wahanol i’r croesau eraill?












© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016



Tudalen 10



Tudalen 11

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Beth yw pwrpas mynwentydd?
- Pam mae pobl yn gosod cofebion mewn mynwentydd, a beth maen nhw'n ei ddweud wrthym?

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Dychmygwch mai chi yw'r gofeb ar ffurf angel, a disgrifiwch eich bywyd yn y fynwent
- Darllenwch eiriau oddi ar gofebion mewn mynwent. Pam mae'r wybodaeth hon yno? **(Gweithgaredd 4)**

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- mynwent
- angel

**Datblygiad corfforol**

- Cerddwch yn ddistaw a pharchus iawn oddi amgylch y fynwent
- Sefwch yn llonydd iawn fel yr angel yn y fynwent

**Datblygiad creadigol**

- Lluniwch gofebion ar gyfer y fynwent
- Gwrandewch ar wahanol fathau o gerddoriaeth, a phenderfynwch pa un sy'n fwyaf addas ar gyfer mynwent


**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol**

- Archwiliwch pa waith sydd angen ei wneud er mwyn gofalu am fynwent
- Rhowch gyfle i ymateb i brofiadau'r plant ynghylch marwolaeth a galar, fel mae'n briodol

**Datblygiad mathemategol**

- Ewch i ymweld â mynwent a chyfrif y croesau a welwch yno
- Amcangyfrifwch pa mor hir y byddai 'angel' yn gallu sefyll yn llonydd, ac yna defnyddiwch stopwats i wirio hynny

Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol








© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016


# Y Fynwent

Pam mae wybodaeth hon ar y cerrig beddau?















© Tania ap Siôn and Phillip Vernon 2016



Tudalen 12




Tudalen 13

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Holwch ynghylch beth mae ficer yn ei wneud
- Archwiliwch wahanol fathau o gartrefi a phwy sy'n byw ynddyn nhw

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Lluniwch gwestiynau yr hoffech chi eu gofyn i ficer, a rhowch wahoddiad i ficer ddod i'r ysgol i'w hateb
- Ysgrifennwch lythyr at y ficer i ddiolch am yr ymweliad ac i ddweud beth oeddech wedi ei weld yn ddiddorol

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- ficerdy
- ficer

**Datblygiad corfforol**

- Teithiwch mewn gwahanol ffyrdd ar hyd y stryd i ymweld â'ch ffrindiau (e.e. cerdded, sgipio, rhedeg, hopian)
- Meimiwch sgwrs dros giât y ficerdy

**Datblygiad creadigol**

- Dyluniwch ffenestri o siapiau gwahanol ar gyfer y ficerdy
- Lluniwch groes i'w gosod ar y ficerdy

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol**

- Sut ydych chi'n cyfarch ficer? A sut ydych chi'n cyfarch gwahanol fathau o bobl?
- Pam mae ficer yn gwisgo coler wen arbennig? **(Gweithgaredd 5)**

**Datblygiad mathemategol**

- Lluniwch fap o'r ardal leol a llywiwch o'i chwmpas
- Os yw pob bricsen yr un hyd â'ch llaw, pa mor uchel yw'r wal?

**Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol**

**Ystyr** **Dylanwad**

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016


# Dillad

Pam mae pobl yn gwisgo dillad gwahanol?





© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Tudalennau gweithgareddau 14-15 CROES



Tudalen 14



Tudalen 15

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Edrychwch ar wahanol fathau o adeiladau (e.e. ysbyty, gorsaf dân, ysgol, eglwys) ac archwiliwch pam maen nhw'n edrych felly
- Beth yw pwrpas eglwys?

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Siaradwch am beth ydych chi'n gallu ei weld yn yr eglwys, a pham rydych chi'n meddwl fod y pethau hynny yno
- Beth ydych chi'n ei weld yn y ffenestr liw?

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- eglwys
- sedd

**Datblygiad corfforol**

- Gwrandewch ar gerddoriaeth yr organ a dawnsiwch yn yr eglwys
- Eisteddwch yn dawel iawn mewn cylch, a dychmygwch fod mewn eglwys

**Datblygiad creadigol**

- Lluniwch allor gyda chroes a chanhwyllau
- Lluniwch ffedog flaen ar gyfer yr allor

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol**

- Sut mae pobl yn dangos parch mewn eglwysi?
- Ewch i ymweld ag eglwys, a siaradwch am sut mae hynny'n gwneud i chi deimlo

**Datblygiad mathemategol**

- Ewch i ymweld ag eglwys a chyfrifwch faint o le sydd yno i bob eistedd
- Goleuwch gannwyll ac amserwch pa mor hir mae'n ei gymryd i losgi 2cm, yna lluniwch gloc **(Gweithgaredd 6)**




© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Cloc canwyll

Gwnewch gloc cannwyll. Faint o amser mae'n ei gymryd i losgi i'r gwaelod? Cofnodwch eich canlyniadau yn y blychau.

2cm = ☐ munud


4cm = ☐ munud

6cm = ☐ munud


8cm = ☐ munud

10cm = ☐ munud

12cm = ☐ munud




© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016



Tudalen 16



Tudalen 17

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Holwch ynghylch sut mae gwneud picau'r Grog, a pham mae pobl yn eu gwneud?
- Beth ddigwyddodd ar Ddydd Gwener y Groglith?

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Ysgrifennwch rysáit ar gyfer gwneud picau'r Grog **(Gweithgaredd 7)**
- Lluniwch gerdd am bicau'r Grog

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- Dydd Gwener y Groglith
- Picau'r grog

**Datblygiad corfforol**

- Gosodwch gegin ar gyfer pobi picau'r Grog, a gofalwch bod popeth wedi ei olchi ac yn lân
- Gan ddefnyddio eich corff (mewn grwp), ceisiwch wneud siapiau croes mewn gwahanol ffyrdd

**Datblygiad creadigol**

- Gwnewch bicau'r Grog
- Lluniwch stondin i arddangos y picau

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol**

- Rhannwch bicau'r Grog rhwng rhai ohonoch chi mewn grwp bach
- Ewch ati i ganfod o ble daw sbeisys ar gyfer gwneud picau'r Grog

**Datblygiad mathemategol**

- Pwyswch y cynhwysion ar gyfer gwneud picau'r Grog
- Amserwch pa mor hir mae angen i'r picau fod yn y popty

Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol | Cwestiynau | Ystyr

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Picau'r Grog

Cynhwysion:

Offer:

Tymheredd y popty:

Amser coginio:

Dull:





Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu
© Tania ap Siôn and Phillip Vernon 2016

# Tudalennau gweithgareddau 18-19 CROES



Tudalen 18



Tudalen19

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Holwch ynghylch beth mae'r efengylau'n ei ddweud am Ddydd Gwener y Groglith
- Holwch ynghylch beth yw ystyr y gair 'efengyl'

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Edrychwch ar y groes a'r goron ddrain, a siaradwch am y rhain
- Lluniwch gerdd am y goron ddrain

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- Efengyl Ioan
- Iesu

**Datblygiad corfforol**

- Chwaraewch rôl cario'r groes drom i Golgotha
- Rhowch gynnig ar arfer defnyddio'r Beibl â pharch

**Datblygiad creadigol**

- Ysgrifennwch yr adnodau o Ioan 19, ac addurnwch eich gwaith. Mae'r adnodau wedi eu cynnwys yn fersiwn estynedig y stori
- Gan ddefnyddio darnau o bren, llinyn, ac unrhyw bethau eraill sy'n cael eu darparu i chi, lluniwch groes fawr i Iesu ei chario

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol**

- O gofio mai '*Good Friday*' yw'r enw Saesneg am Ddydd Gwener y Groglith, pam mae Cristnogion yn galw hwn yn *'Good' Friday*?
- Disgrifiwch deimladau'r rhai oedd ar y llwybr i Golgotha, yn cynnwys teimladau Iesu, ei ffrindiau ac aelodau ei deulu, a'r rhai oedd yn gwylio ar ochr y ffordd oedd ddim yn adnabod Iesu'n bersonol **(Gweithgaredd 8)**

**Datblygiad mathemategol**

- Mesurwch y groes rydych chi wedi ei llunio, o ran uchder, lled a phwysau
- Sawl efengyl sydd yn y Beibl? Pa efengyl yw'r fyrraf a pha un yw'r hiraf?


**Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol**

**Ymatebion personol**

**Dylanwad**

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Teimladau






© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016



Tudalen 20



Tudalen 21

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Holwch ynghylch Pererindod y Groglith
- Pa orymdeithiau eraill sy'n cael eu cynnal yn eich ardal chi, neu mewn mannau eraill yn y byd?

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Siaradwch am daith Aled a Siân trwy'r dref
- Ysgrifennwch eiriau rydych chi'n meddwl eu bod yn bwysig ynghylch Dydd Gwener y Groglith a'u rhoi ar groes. Darllenwch eiriau pobl eraill

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- pererindod
- gorymdaith

**Datblygiad corfforol**

- Meimiwch orymdaith Dydd Gwener y Groglith
- Rhowch gynnig ar gario croes fawr fel yn y llun

**Datblygiad creadigol**

- Lluniwch faner ar gyfer Pererindod y Groglith **(Gweithgaredd 9)**
- Canwch emyn neu gân am Ddydd Gwener y Groglith, e.e. '*Draw, draw ymhell mae gwyrddlas fryn*'

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol**

- Sut mae Cristnogion yn teimlo ar Ddydd Gwener y Groglith?
- Pam mae Cristnogion yn dathlu marwolaeth Iesu?

**Datblygiad mathemategol**

- Cynlluniwch lwybr taith trwy'r ysgol ar gyfer 'Pererindod y Groglith'
- Faint o amser mae'n ei gymryd i gerdded llwybr y bererindod, a pha mor bell rydych chi'n teithio?


Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol | Ymatebion personol | Cyfrifoldeb

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016


## Pererindod y Groglith


Lluniwch faner ar gyfer Pererindod y Groglith.

Ioan 19











© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016



Tudalen 22



Tudalen 23

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Archwiliwch sut mae Cristnogion yn dathlu Sul y Pasg
- Holwch ynghylch ffyrdd poblogaidd o ddathlu'r Pasg

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Chwaraewch rôl stori ymweliad Mair â'r bedd gwag
- Lluniwch gerdd am y bedd gwag

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- Sul y Pasg
- Atgyfodiad

**Datblygiad corfforol**

- Dawnsiwch stori atgyfodiad Iesu
- Dychmygwch fod yn Mair a rhedwch mor gyflym ag y gallwch chi i ddweud wrth y disgyblion beth sydd wedi digwydd

**Datblygiad creadigol**

- Lluniwch ardd y Pasg gyda bedd gwag
- Canwch emyn Pasg (e.e. 'Cododd Crist o'r bedd yn fyw)

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol**

- Siaradwch am y dyddiadau pwysig yn eich blwyddyn chi
- Lluniwch ddwy linell amser, un sy'n nodi eich prif ddyddiadau pwysig chi (fel unigolyn neu fel dosbarth), ac un arall sy'n nodi'r prif ddyddiadau pwysig ym mywyd yr eglwys **(Gweithgaredd 10)**

**Datblygiad mathemategol**

- Holwch ynghylch faint o blant eich dosbarth neu eich ysgol sy'n dathlu'r Pasg trwy fynd i'r eglwys a/neu gael wyau Pasg
- Archwiliwch y calendr Cristnogol a lluniwch galendr ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan nodi'r dyddiadau ar gyfer Dydd Gwener y Groglith, Sul y Pasg a'r Nadolig

Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol

Cwestiynau

Ystyr

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

| Dyddiadau pwysig ym mlwyddyn yr Eglwys | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tachwedd<br><br>Adfent | Rhagfyr<br><br>Nadolig | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill |
| Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref |

| Fy nyddiadau pwysig | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin |
| Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr |


© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

***Y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol yng Nghymru***

**Ystod: Pobl, Credoau a Chwestiynau (5-7)**

Dylai plant gael cyfleoedd (trwy storïau, gweithgareddau a phrofiadau) i:

- gael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd;
- archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu ar fywyd pobl** a **rhoi arweiniad** iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach;
- gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio;
- ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth;
- mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol;
- archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Tudalennau 4-5


| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu** ar fywydau pobl a *rhoi arweiniad* iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio pa ddylanwad y mae gwisgo croes yn ei gael ar Gristnogion. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad creadigol***<br>• Dyluniwch a gwnewch gadwyn i roi am eich gwddf gyda chroes arni. |

| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Gofyn ***cwestiynau*** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio pam mae rhai Cristnogion yn dewis gwisgo croes wedi ei gwneud o aur neu arian? |
| **Maes dysgu** | ***Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd***<br>• Dysgwch am wahanol fetelau a cherrig, a pham mae rhai'n werthfawr. |


Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Tudalennau 6-7



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Cael ***mewnwelediad*** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio pam mae gan Gristnogion gymaint o wahanol fathau o groesau? |
| **Maes dysgu** | ***Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd***<br>• Dysgwch am wahanol fathau o groesau ac o ble maen nhw'n dod. |




| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Mynegi ***ymatebion personol*** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio ymatebion personol i'r patrymau cymhleth ar y groes Geltaidd. |
| **Maes dysgu** | ***Creative development***<br>• Dyluniwch a gwnewch batrwm Celtaidd ar gyfer y groes. |


Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Tudalennau 8-9



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Cael ***mewnwelediad*** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio sut mae'r groes Gristnogol i'w gweld mewn cymaint o lefydd. |
| **Maes dysgu** | ***Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu***<br>• Adroddwch stori am sut y daeth y groes bren i fod ar y wal. |




| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Archwilio ein ***cyfrifoldeb*** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio ymrwymiad Cristnogol i elusen drwy werthu lolipops rydych chi wedi eu gwneud i godi arian at elusen. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad creadigol***<br>• Gwnewch hufen ia neu lolipops. |


Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Tudalennau 10-11



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Ymchwilio a mynegi ***ystyr*** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio beth sy'n gwneud angylion yn arbennig i Gristnogion a pham mae rhai Cristnogion yn defnyddio angel ar gerrig beddi eu hanwyliaid. |
| **Maes dysgu** | ***Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd***<br>• Pam mae pobl yn gosod cofebion mewn mynwentydd, a beth mae'r rhain yn ei ddweud wrthych chi? |



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Cael ***mewnwelediad*** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio arwyddocâd cerrig beddi i bobl grefyddol. |
| **Maes dysgu** | ***Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu***<br>• Darllenwch arysgrifau ar gofebion o fynwent. Pam mae'r wybodaeth hon yno? |

Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Tudalennau 12-13

| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Ymchwilio a mynegi ***ystyr*** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio sut mae croes yn rhoi ystyr i adeiladau fel y ficerdy. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad creadigol***<br>• Dyluniwch ffenestri gwahanol siâp ar gyfer y ficerdy. |

| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu** ar fywydau pobl a *rhoi arweiniad* iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio effaith y ffydd Gristnogol ar fywyd a gwaith ficer. |
| **Maes dysgu** | ***Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd***<br>• Holwch ynghylch yr hyn y bydd ficer yn ei wneud. |

Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Tudalennau 14-15

| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Cael ***mewnwelediad*** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio'r gwahanol weithgareddau sy'n digwydd mewn eglwys. |
| **Maes dysgu** | ***Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd***<br>• At ba bwrpas mae eglwys yn cael ei defnyddio? |

| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Mynegi ***ymatebion personol*** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio ymatebion personol i wahanol allorau. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad creadigol***<br>• Lluniwch flaenlen ar ffurf collage ar gyfer yr allor. |


Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016






# Tudalennau 16-17



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Gofyn ***cwestiynau*** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio beth ddigwyddodd i Iesu ar Ddydd Gwener y Groglith. |
| **Maes dysgu** | ***Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd***<br>• Beth ddigwyddodd ar Ddydd Gwener y Groglith? |



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Ymchwilio a mynegi ***ystyr*** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio ystyr picau'r Grog i Gristnogion. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad mathemategolent***<br>• Amserwch pa mor hir mae angen i'r picau fod yn y popty. |

Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016





# Tudalennau 18-19


| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Mynegi ***ymatebion personol*** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio eich ymateb personol i stori Dydd Gwener y Groglith. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad corfforol***<br>• Chwaraewch rôl cario'r groes drom i Golgotha. |

| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Archwilio sut y mae crefydd wedi ***dylanwadu*** ar fywydau pobl a *rhoi arweiniad* iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio effaith Dydd Gwener y Groglith ar ffrindiau Iesu, ar aelodau ei deulu, ac ar y rhai oedd yn gwylio. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol***<br>• Disgrifiwch deimladau'r rhai oedd ar y llwybr i Golgotha, gan gynnwys teimladau Iesu, ei ffrindiau ac aelodau ei deulu, a'r rhai oedd yn gwylio oedd ddim yn adnabod Iesu'n bersonol. |


Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Tudalennau 20-21



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Mynegi ***ymatebion personol*** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio effaith Pererindod y Groglith heddiw. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad mathemategol***<br>• Cynlluniwch daith drwy'r ysgol ar gyfer Pererindod y Groglith. |



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Archwilio ein ***cyfrifoldeb*** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio'r parch sy'n cael ei ddangos mewn cymunedau lleol i Bererindod y Groglith yr eglwysi ar Ddydd Gwener y Groglith. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad corfforol***<br>• Meimiwch bererindod Dydd Gwener y Groglith. |

Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

## Tudalennau 22-23

| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Gofyn ***cwestiynau*** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio sut mae Cristnogion yn dathlu'r Pasg. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad corfforol***<br>• Dawnsiwch stori atgyfodiad Iesu. |

| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Ymchwilio a mynegi ***ystyr*** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio arwyddocâd y bedd gwag i Gristnogion. |
| **Maes dysgu** | ***Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu***<br>• Ysgrifennwch gerdd am y bedd gwag. |

Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016